# Adroddiad Arolygu

**Linda Jones**

**Bangor**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

Adroddi
ol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/09/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoliadau cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | **14 Mehefin 2018** |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn deall eu gweithdrefnau diogelu ac yn parchu anghenion a dewisiadau'r plant yn ddigonol. Maent yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Covid-19 ac yn rhoi arferion ar waith i leihau achosion o groesheintio a chael gwared arnynt lle y bo'n bosibl. Maent yn cadw cofnod presenoldeb ar y cyfan.

Mae'r polisïau a gweithdrefnau a gaiff eu dilyn yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r teganau a'r cyfarpar wedi'u trefnu'n dda, yn lân, yn amrywiol ac mewn cyflwr da. Dan do, caiff y plant gyfleoedd i chwarae, dysgu ac ymlacio ac mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig lle iddynt fod yn fwy egnïol a threulio amser yn yr awyr iach. Mae ardal gysgu benodedig wrth ymyl y brif ystafell chwarae yn rhoi lle tawel i'r plant ymlacio ynddo.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn modd addas; mae'r dogfennau am y gwasanaeth yn gyfredol ac yn llawn gwybodaeth. Mae'r arweinwyr a'r staff yn mynychu hyfforddiant a chyrsiau'n rheolaidd i wella arferion a chodi safonau. Mae partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhieni'n rhannu gwybodaeth bwysig am eu plant â nhw cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Ers yr arolygiad, mae arweinwyr wedi cadarnhau eu bod yn cofnodi absenoldebau yn y cofnodion presenoldeb dyddiol a fydd yn sicrhau bod cofnodion presenoldeb dyddiol cywir yn cael eu cadw

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn ac fe'i cynhaliwyd yn rhithwir. Gofynnom am wybodaeth am y gwarchodwr plant a chawsom luniau, polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â'r trefniadau cysgu a'r asesiad risg. Cawsom hefyd daith rithwir o amgylch yr ardal gysgu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

***Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon (yn llawn), felly, nid ydym wedi cyflwyno na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.***

Rydym wedi cynnal yr arolygiad pan nad oedd plant yn bresennol gan mai ein prif ffocws oedd y trefniadau cysgu. Byddwn yn arolygu llesiant plant yn llawn fel rhan o'n arolygiad nesaf o'r gwasanaeth hwn.

## Gofal a Datblygiad

***Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon (yn llawn), felly, nid ydym wedi cyflwyno na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.***

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ddigonol. Er enghraifft, mae eu polisi Covid-19 yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal diogel. Roedd y gwarchodwr plant hefyd yn gallu egluro sut y byddai'n rhoi'r polisi amddiffyn plant ar waith yn foddhaol. Darparodd ddogfennau i ddangos sut y caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi, gan gynnwys y rheini a gedwir am blentyn yn cyrraedd gydag anaf sy'n bodoli eisoes. Gofynnir i'r rhieni lofnodi'r cofnodion hyn i gydnabod eu bod wedi cael gwybod amdanynt.

Caiff cofnodion presenoldeb dyddiol eu cadw am y plant yn ogystal â chofnodion am bresenoldeb y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd. Mae hyn yn darparu digon o wybodaeth os bydd angen iddynt ddelio ag argyfwng a dangos y gymhareb oedolion i blant ofynnol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth â'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd ac ar ôl derbyn gwybodaeth gan asiantaeth arall, cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod wedi gadael y cynorthwyydd gwarchod plant i ofalu am bedwar plentyn dan bump oed ar un achlysur ac nad oedd wedi cofnodi ei habsenoldeb yn gywir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn ymateb i anghenion unigol y plant o ran cysgu ac yn sicrhau eu bod yn cofnodi ac yn gyfarwydd â phatrymau cysgu a dewisiadau'r plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

***Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon (yn llawn), ac felly, nid ydym wedi cyflwyno na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.***

Mae'r asesiadau risg ysgrifenedig a'r gweithdrefnau yn dangos sut mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn delio â pheryglon posibl i blant ac yn cael gwared arnynt lle y bo'n bosibl. Mae'r polisi ysgrifenedig ar drefniadau cysgu'n dangos sut y mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn sicrhau y gall y plant gysgu'n ddiogel ac yn gyfforddus ac y cânt eu monitro'n agos.

Dangosodd y lluniau o deganau a chyfarpar eu bod yn addas ar gyfer oedran y plant a oedd yn mynychu'r gwasanaeth a'u bod yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r mesurau ychwanegol a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn cynnwys rhestr wirio diogelwch ysgrifenedig a chofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau glanhau, a chânt eu cwblhau a'u cofnodi'n ddyddiol.

Mae gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo arferion hylendid a rheoli heintiau da. Er enghraifft, mae'r polisi ‘Covid‘ yn cadarnhau y caiff cyn lleied o deganau ac adnoddau eu defnyddio â phosibl a chânt eu glanhau a'u newid ar ddiwedd y dydd, a chaiff y cadeiriau gwthio eu diheintio drwy eu glanhau gan ddefnyddio chwistrell gwrthfacterol ar ôl pob plentyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

***Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon (yn llawn), felly, nid ydym wedi cyflwyno na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.***

Mae'r gwarchodwr plant wedi adolygu ei harferion asesu risg dyddiol ac mae ganddi bellach gofnodion dyddiol ysgrifenedig o ganfyddiadau yn hytrach na chynnal asesiadau gweledol.

Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni. Mae ffurflenni cofnodion y plant a thrafodaethau â'r rhieni cyn i'w plant ddechrau yn y gwasanaeth yn sicrhau bod y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau pob plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth diogel a hygyrch. Er enghraifft, cydweithiodd y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau. Maent wedi trefnu cyfarfod goruchwylio ffurfiol bob chwe wythnos yn ogystal ag arfarniad blynyddol er mwyn trafod a mynd i'r afael â materion sydd heb eu datrys lle y bo'n bosibl. Roedd cadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi mynychu sawl cwrs yn ymwneud â gofal plant yn 2020, er enghraifft diogelu, Cymorth Cyntaf a Llesiant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn ymrwymedig i wella canlyniadau i'r plant a'r rhieni. Rhoddwyd camau ar waith i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad blaenorol ac aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion ar arferion da. Er enghraifft, roedd y cadeiriau uchel a ddarparwyd i'r plant yn rhoi harneisiau â 4/5 pwynt i'r plant ac roedd adnoddau megis bagiau ffa yn creu cornel dawel i'r plant ymlacio a darllen ynddi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol gyda'r rhieni. Er enghraifft, drwy drafod patrymau cysgu a dewisiadau'r plant â'r rhieni cyn iddynt ddechrau gofalu am eu plant.

| Meysydd i'w gwella, a'r camau a gymerwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| Rheoliad 15 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"): Y datganiad o ddiben: | Nid yw'r gwarchodwr plant wedi cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gydymffurfio. | **Wedi'i gyflawni** |
| Rheoliad 25 (c) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"): Peryglon a Diogelwch: | Nid oedd y gwarchodwr plant yn dilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer newid cewynnau a golchi dwylo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. | **Wedi'i gyflawni** |
| Rheoliad 29 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"): Cyflogi staff: | Nid oedd y gwarchodwr plant yn gallu dangos bod y staff wedi cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd ac yn bwrpasol i drafod eu perfformiad, anghenion hyfforddiant a chyfrannu syniadau er mwyn | **Wedi'i gyflawni** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | | |
|---|---|---|
| | gwella'r gofal a ddarperir a chynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant. | |
| Rheoliad 30 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"): Cadw cofnodion: | Nid oedd y gwarchodwr plant yn gallu dangos bod cofnodion y plant yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. | **Wedi'i gyflawni** |
| Rheoliad 31 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"): Darparu Gwybodaeth: | Nid yw'r gwarchodwr plant yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol. | **Wedi'i gyflawni** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Lle na fydd darparwyr yn llwyddo i wella a gweithredu, gallwn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad (diffyg cydymffurfio) gweithredu â blaenoriaeth.

| **Meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau ar unwaith** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd y mae angen eu gwella** | |
|---|---|
| Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau bod ei chofrestr presenoldeb dyddiol yn dangos pryd mae'n bresennol yn y gwasanaeth yn gywir a'i bod yn cofnodi nifer ac oedrannau'r plant sy'n bresennol. | Rheoliad 30 (1) (a) |

*Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad (diffyg cydymffurfio) gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn. Mae hyn am nad oedd unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol na chanlyniadau gwael i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.*

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/11/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi